



Cyfarfod

BWRDD PENSIWN

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 24AIN MEDI, 2019

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor,
Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 17 Medi 2019)

BWRDD PENSIWN

AELODAETH

CYNRYCHOLWYR CYFLOGWR

Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)

Cyng Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd)

Sedd wag

CYNRYCHOLWYR AELODAU

Hywel Eifion Jones (wedi ymddeol – Cyngor Mon gynt)

Osian Richards (Cyngor Gwynedd)

Sharon Warnes (wedi ymddeol - Cyngor Gwynedd gynt)

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2019 - 20

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2019 - 20

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 17 Mai 2019 fel rhai cywir

7. COFNODION A MATERION YN CODI O'R PWYLLGOR PENSIYNAU 10 - 13

Cyflwyno er gwybodaeth, cofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 29.7.19 ac ystyried unrhyw faterion yn codi

8. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU

14 - 16

I ystyried adroddiad y Rheolwr Pensiynau

9. PRISIAD ACTIWARAIDD TEIR-BLYNYDDOL 2019

17 - 19

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

10. RHAGDYBIAETHAU PRISIAD 2019

20 - 34

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

11. BUDDSODDIAD ECWITI CARBON ISEL

35 - 37

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

12. PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU - DIWEDDARIAD

I dderbyn diweddariad ar lafar gan y Pennaeth Cyllid ar ddatblygiadau diweddar

BWRDD PENSIWN, 17.05.19

Yn bresennol: Anthony Deakin (Cartrefi Conwy) (Cadeirydd), Cynghorydd Aled Evans (Cyngor Gwynedd), H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun) a Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)

Eraill a wahoddwyd: Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau).

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau), Meirion Jones (Uwch Swyddog Cyfathrebu Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem yma a'i gynnwys ar raglen y cyfarfod nesaf – Medi 24ain 2019

2. ETHOL Is GADEIRYDD

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem yma a'i gynnwys ar raglen y cyfarfod nesaf – Medi 24ain 2019

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Sharon Warnes ac Osian Richards

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

5. MATERION BRYN

Dim i'w nodi

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019 fel rhai cywir.

7. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU

Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2019. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw fater i'w godi o'r cofnodion.

8. ADRODDIAD (drafft) CADEIRYDD Y BWRDD PENSIYNAU AM 2018/2019

Cyflwynwyd adroddiad drafft diwygiedig wedi ei baratoi ar y cyd gyda'r Cadeirydd oedd yn cynnwys y sylwadau a gyflwynodd aelodau'r Bwrdd yn eu cyfarfod Mawrth 2019. Atgoffwyd yr aelodau y byddai'r adroddiad yn cael ei gynnwys yn adroddiad cyffredinol blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad

9. DIWEDDARIAD AR BERFFORMIAD BUDDSODDIAD

Cyflwynwyd tabl yn crynhoi perfformiad mandadau ecwiti a bondiau ac adroddwyd bod y mwyafrif yn perfformio uwchben y meincnodau. Eglurwyd nad oedd pob Cronfa wedi adrodd yn brydlon ar eu perfformiad ac felly amcangyfrifwyd y dychweliadau. Eglurwyd mai ychydig dros 6 wythnos o berfformiad oedd gan ddau is-gronfa Partneriaeth Pensiwn Cymru, sef y 'WPP Global Growth Fund' a'r 'WPP Global Opportunities Fund', ac felly derbyniwyd bod angen cyfnod estynedig cyn asesu'r perfformiad. Nodwyd bod monitro perfformiad yn broses tymor hir ym myd pensiynau ac y byddai'r sefyllfa yn cael ei fonitro a'i adolygu wrth symud ymlaen.

Gwnaed cais i amlygu canran o faint o arian sydd yn y pŵl Partneriaeth Pensiwn Cymru unwaith bydd pethau wedi sefydlogi, fel bod modd cael darlun clir wrth i asedau drosglwyddo.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

10. COFRESTR RISG

Cyflwynwyd y gofrestr risg i'r Aelodau fel bod modd iddynt graffu'r fersiwn ddiweddaraf a chadarnhau bod y risgiau sydd wedi eu hadnabod yn cael eu monitro yn gywir. Nodwyd bod y gofrestr yn ddogfen weithredol gyda'r risgiau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd a mesuriadau lliniaru yn eu lle.

Roedd yr Aelodau eisoes wedi gwneud cais i'r gofrestr risg fod yn eitem sefydlog ar gyfer pob cyfarfod, yn unol ag awgrym gan CIPFA. Cytunwyd y byddai'r eitem yn un i adrodd ar newidiadau yn unig ac nid yn agoriad i drafodaeth ar unrhyw agwedd.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Awgrym i gynnwys risg ar gyfer cyfraith achosion (hyn yn codi o achos diweddar McCloud).
- Mewn ymateb i fethiant cyflogwr, nodwyd bod cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu casglu'n fisol. Byddai unrhyw bryderon yn cael ei monitro, ond bod gan y Gronfa warant gan gyn-gyflogwr.
- Gyda'r Pwyllgor Pensiynau wedi cytuno buddsoddiad ychwanegol mewn adnoddau staff i'r Gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau, a ddylai sgôr y risg 'adnoddau staff digonol' gael ei ostwng? Mewn ymateb nodwyd bod pwysau sylweddol yn parhau ar Wasanaeth Buddsoddi'r Gronfa, ar gysoni trosglwyddiadau i'r pŵl Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac y byddai modd adolygu'r sefyllfa ymhén 12mis.
- Nododd swyddogion bod y Gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau wedi derbyn gwybodaeth yn amserol gan gyflogwyr eleni sydd yn welliant sylweddol, ond nad oedd cywirdeb y wybodaeth wedi ei wirio eto. Gyda datblygiad a defnydd o system i-Connect, roedd y swyddogion yn rhagweld gwelliant pellach i'r dyfodol. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith o gryfhau'r broses gyfathrebu ac ymgysylltu gyda chyflogwyr.

PENDERFYNWYD derbyn cynnwys y gofrestr risg ac ychwanegu'r cynigion uchod.

11. YMGYNHORIAD POLISI'R WEINYDDIAETH TAI, CYMUNEDAU A LLYWODRAETH LEOL (MHCLG) - 'CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

Cyflwynwyd er gwybodaeth adroddiad yn amlygu bod Polisi'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) yn cynnal ymgynghoriad - Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: Newidiadau i'r cylch prisio lleol a pholisi rheolaeth risg cyflogwyr. Amlygwyd bod Llywodraeth San Steffan yn cynnig diwygio rheoliadau fel bydd prisiau cronfeydd y C.PLI.L. yn newid o gylch tair blynedd i gylch pedair blynedd.

Adroddwyd bod cylch tair blynedd yn addas ar gyfer cynlluniau sydd wedi'u ariannu, fel Cronfa Gwynedd, a mynegwyd mai'r ddadl gychwynnol yw mai esgeulus fyddai newid i gyfnod 4 blynedd oherwydd rhesymau cyfleustra a chysoni trefniadau cenedlaethol Llywodraeth y DU. Ategwyd nad oedd rhesymau clir dros y newid arfaethedig, ac nad oedd achos busnes i'w gyfiawnhau.

Eglurwyd bod yr ymgynghoriad yn cau ar y 31ain o Orffennaf 2019 ac y byddai'r swyddogion yn ceisio arweiniad gan actiwari'r Gronfa a chyrrff proffesiynol eraill. Nodwyd mai'r bwriad yw paratoi ymateb drafft mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a chyflwyno'r ymateb hwnnw i'r Pwyllgor Pensiynau ei gymeradwyo ar y 29ain o Orffennaf 2019.

Mewn ymateb nodwyd bod y drefn bresennol yn effeithiol ac felly cwestiynwyd yr angen i newid – y rhesymau heb eu hamlygu yn glir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) a bod dim achos busnes ganddynt. Gwnaed cais i'r swyddogion Cyllid rannu copi o'r arweiniad y bydd actiwari'r Gronfa, Hymans Robertson yn ei gynnig, ynghyd â'r ymateb drafft ar ran Cronfa Gwynedd.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth a chefnogi'r swyddogion yn eu hymateb i'r ymgynghoriad

12. PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - YMGYSYLLTU GYDA CHADEIRYDDION BWRDD PENSIWN

Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth yn amlinellu trefniadau ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru gyda Chadeiryddion yr 8 Bwrdd Pensiwn C.PLI.L. Cymreig. Amlygodd y Cadeirydd bod yr awydd i gyfarfod wedi codi mewn ymateb i ganfod dull ymarferol o rannu a thrafod rhaglen waith yr awdurdod lletya, sir Gâr, ynghyd â phryderon oedd yn cael eu hamlygu. Er i ambell Gadeirydd Bwrdd Pensiwn gynnig y byddai modd amlygu pryderon drwy lythyru, penderfynwyd mai cynnal trafodaeth ddwyffordd mewn cyfarfod ar y cyd fyddai'r dull gorau o fynd i'r afael â'r materion. Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd y Sir Caerdydd ar yr 2il o Ebrill 2019, lle roedd y Pennaeth Cyllid a Cadeirydd Bwrdd Pensiwn Gwynedd yn bresennol, a chyfeiriwyd at y cofnodion oedd wedi eu hatodi gyda'r adroddiad.

Adroddwyd bod y cyfarfod wedi bod yn fuddiol iawn a datrysiaid wedi eu cynnig. Derbyniwyd y byddai problemau cychwynnol amlwg wrth sefydlu Partneriaeth o'r newydd:

Nododd y Cadeirydd y materion canlynol oedd wedi codi yn ystod y cyfarfod:

- bod llawer o waith wedi cael ei wneud wrth drosglwyddo buddsoddiadau
- bod gan yr awdurdod lletya gynllun gweithredu manwl yn ei le
- derbyn yr angen am wella cyfathrebu a gwybodaeth ar y wefan
- aelodaeth rhai o'r Byrddau yn wahanol, ac felly'n cyflwyno agweddau gwahanol o graffu a herio
- cytundeb byddai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob 6 mis – hyn yn galonogol.

Derbyniwyd y wybodaeth.**13. CAP AR DALIADAU YMADAELY SECTOR GYHOEDDUS**

Cyflwynwyd er gwybodaeth adroddiad yn amlygu bod Llywodraeth San Steffan yn ymgynghori ar gyfyngu taliadau ymadael yn y sector gyhoeddus – gweithredu cap taliad ymadael o £95k.

Nodwyd bod manylion yr adroddiad ychydig yn amwys a bod mwy o gwestiynau nac atebion yn amlygu eu hunain ar hyn o bryd gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar eu safbwynt ar y mater. Amlygwyd bod gan Weinidogion Cymru bwerau i lacio'r cyfyngiadau ac un awgrym o fewn llywodraeth leol Cymru yw na ddylai 'cap ymadael' ar gyfer Cymru gynnwys 'straen' pensiwn. Gall Llywodraeth Cymru lacio'r gofyn yn briodol, gan hefyd ystyried lleihau'r £95k.

Eglurwyd bod yr ymgynghoriad yn cau ar y 3ydd o Orffennaf 2019 ond nad oedd unrhyw gyfarwyddyd ar sut i weithredu wedi ei gyflwyno gan Lywodraeth San Steffan.

Cynigiwyd i'r ymateb nodi cefnogaeth i dynnu 'straen' pensiwn allan o'r cap ymadael ac y dylid amlygu pryder am gyfyngu'r hyblygrwydd. Gwnaed cais i'r swyddogion ymchwilio i'r nifer o weithwyr / aelodau y bydd hyn yn cael effaith arnynt, yn enwedig y nifer hynny fuasai yn derbyn dros £50k

PENDERFYNWYD annog cyflogwyr Cronfa Gwynedd i ymateb i'r ymgynghoriad.

14. RECRIWTIO A PHENODI AELOD I'R BWRDD

Y dilyn cyhoeddiad gan y Cadeirydd, Tony Deakin, ei fod yn ymddeol ar ddechrau mis Awst, amlygodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn derbyn ei ymddiswyddiad ac felly yn dechrau ar y broses o recriwtio a phenodi cynrychiolydd cyflogwr newydd i'r Bwrdd Pensiwn drwy lythyru cyflogwyr.

Ategodd ei ddiolch i Tony Deakin am ei wasanaeth fel aelod ac fel Cadeirydd y Bwrdd, ac fe'i longyfarchwyd ef a Chartrefi Conwy ar dderbyn gwobr yn seremoni Gwobrau Cyllid Cyhoeddus am fodlau amgen o ddarparu gwasanaeth gan ddod a chyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol.

Mynegodd y Cadeirydd Tony Deakin ei ddiolch i'r Pennaeth Cyllid a'r swyddogion am eu cefnogaeth ac hefyd i aelodau'r Bwrdd am eu gwaith da a'u parch tuag at y gwaith. Nododd ei fod wedi mwynhau'r cyfnod a'r holl brofiadau a dderbyniodd.

Diolchodd Mr Hywel Eifion Jones i'r Cadeirydd ar ran yr Aelodau gan ddymuno ymddeoliad hapus iddo.

15. DYDDIADAU CYFARFODYDD PENSIWN

Cyflwynwyd er gwybodaeth ddyddiadau cyfarfodydd Pensiynau hyd at Fai 2020 er mwyn galluogi'r aelodau i gynllunio'n briodol.

Tynnwyd sylw at addasiad posibl i un o'r dyddiadau. Adroddwyd gall Gydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru gyfarfod ar y 4ydd o Fedi 2019 yn wahanol i'r 20fed o Fedi a nodwyd yn yr adroddiad.

Yn unol ar drefn o enwebu aelod o'r Bwrdd i arsylwi mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Pensiynau, enwebwyd Mr Tony Deakin i fynychu cyfarfod y Pwyllgor 29.7.19. Bydd angen ystyried enwebiadau pellach ar gyfer y cyfarfodydd eraill yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth ac adolygu presenoldeb aelodau'r Bwrdd yn y Pwyllgorau yn y cyfarfod nesaf

16. PRESENOLDEB MEWN CYNADLEDDAU

Cyflwynwyd adroddiad yn hysbysu'r aelodau am gynadleddau a digwyddiadau perthnasol er mwyn ceisio enwebiadau ar gyfer mynychu ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd.

PENDERFYNWYD ar y canlynol gan awgrymu ail drafod yn y cyfarfod nesaf am enwebiadau i'r digwyddiadau eraill.

Digwyddiad Blynyddol CPLIL i Aelodau Byrddau Pensiwn Lleol
26 Mehefin 2019

Osian Richards

Cynhadledd Flynyddol 'Responsible Investor's 12th Annual RI Europe Investment Conference

11 – 12 Mehefin 2019

Aled Evans

'LGC Investment Seminar', Carden Park, Swydd Gaer

27 – 28 Chwefror 2020

Hywel Eifion Jones

17. RHAGLEN WAITH DIWYGIEDIG 2019/2020

Cyflwynwyd rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2019/2020 yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd yng nghyfarfod diwethaf o'r Bwrdd. Atgoffwyd yr Aelodau bod y ddogfen yn ddogfen weithredol ac i'w addasu yn unol â'r gofyn.

Awgrymwyd y materion canlynol i'w cynnwys ar y rhaglen waith:

- Ymarferiad meincnodi yn unol â dangosyddion perfformiad allweddol CIPFA - ar hyn o bryd mae pryderon nad yw'r meddalwedd gweinyddu pensiynau, Altair, yn gallu darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol yn y fformat sy'n dderbyniol i CIPFA. Cytunwyd i gais am ddiweddariad.
- Diweddariad ar ddychweliadau diwedd blwyddyn – dadansoddi gwybodaeth am gywirdeb ac ansawdd y dychweliadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.30am

PWYLLGOR PENSIYNAU 29.7.2019

Yn bresennol: Y Cynghorwyr: John Pughe Roberts (Cadeirydd), Stephen Churchman, David Cowans (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones ac Ioan Thomas

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau), Delyth Wyn Jones-Thomas (Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys), Meirion Jones (Uwch Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Eraill a wahoddwyd: Osian Richards (arsylwi – aelod Bwrdd Pensiwn), Aron John (arsylwi - Hyfforddai – Cyllid) a Helen Lloyd Williams (arsylwi - Heddlu Gogledd Cymru)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Peter Read a Robin Williams (Cyngor Ynys Môn)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

3. MATERION BRYN

- Cynhadledd Llywodraethu'r CPLIL, Gwesty'r Principal, York
23 – 24 Ionawr 2020

Nodwyd nad oedd y Cyngorydd Peredur Jenkins ar gael i fynychu'r gynhadledd yn York. Enwebwyd y Cyngorydd Aled Wyn Jones i fynychu yn ei le.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 16 Mai 2019 fel rhai cywir.

5. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth gyfrifon terfynol cronfa bensiwn Gwynedd. Nodwyd bod y datganiad yn cynnwys manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Ynghyd a'r cyfrifon, fuodd yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte, cyflwynwyd adroddiad ISA260 ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn manylu ar ddarganfyddiadau'r archwilwyr. Adroddwyd bod y cyfrifon wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r llythyr cynrychiolaeth wedi ei awdurdodi gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Pennaeth Cyllid yng nghyfarfod o'r Pwyllgor 29ain Gorffennaf 2019.

Cyfeiriwyd at ddau o strategaethau allweddol y Gronfa, y datganiad strategaeth cyllido a'r datganiad strategaeth buddsoddi.

Tynnwyd sylw at gyfrif y Gronfa, oedd yn nodi gwerth y Gronfa fel ag yr oedd 31 Mawrth 2019. Gwelwyd cynnydd o £143 miliwn yn yr asedau net dros y flwyddyn 2018-2019 oedd yn dod a gwerth y Gronfa i dros £2biliwn.

Eglurwyd y cynnydd mewn gwariant ar ffioedd rheoli asedau, ac mewn ymateb i sylw, eglurwyd y gostyngiad mewn cyfraniadau rhwng 2017-2018 a 2018-2019, oherwydd bod 2017-2018 wedi bod yn flwyddyn pryd talwyd gwerth 3 blynedd o gyfraniadau adfer diffyg (cyfeiriwyd at nodyn 7 yn yr adroddiad).

PENDERFYNWYD derbyn

- **Y Datganiad o'r Cyfrifon 2018 -19 (ôl archwiliad)**
- **Yr Adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd**
- **Y Llythyr Cynrychiolaeth**

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2018/19

Cyflwynwyd fersiwn drafft o Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd oedd yn darparu adolygiad o'r flwyddyn 2018–2019, adroddiad rheoli a manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa. Eglurodd y Pennaeth Cyllid bod amserlen archwilio'r cyfrifon wedi newid ac o ganlyniad wedi rhoi cyfle i gwblhau'r adroddiad yn gynt na'r arfer. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r aelodau gynnig sylwadau cyn cyflwyno yn ffurfiol i'r holl gyflogwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gronfa Bensiwn 24.10.2019. Pwysleisiwyd bod y cyfrifon eisoes wedi eu cymeradwyo ac felly dim modd eu haddasu.

Amlygwyd bod gwerth y gronfa ar y 31ain o Fawrth 2019, bellach yn fwy na £2 biliwn a bod cynnydd cyson wedi bod i werth y gronfa ers 2000. Cyfeiriwyd at ystadegau aelodaeth, gan adrodd bod nifer y pensiynwyr ynghyd a nifer y cyfranwyr wedi cynyddu. Mewn ymateb i sylw bod hyn efallai yn groes i ystyriaeth yng nghyd-destun niferoedd staff o ystyried yr hinsawdd bresennol, awgrymwyd bod cytundebau gwaith rhan amser v llawn amser yn un esboniad.

Dros y 12 mis diwethaf, eglurwyd bod perthynas gyda chyflogwyr y gronfa wedi gwella, gyda gweithdai hyfforddi wedi ei cynnal i sicrhau bod data yn cael ei dderbyn yn gywir ac amserol ar gyfer y cyfrifon.

Diolchwyd i'r staff am eu gwaith a chyfeiriwyd at y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru am safon y gwaith.

Cymerodd y Pennaeth Cyllid y cyfle i gyhoeddi bydd Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau) yn ymddeol cyn diwedd y flwyddyn. Diolchwyd i'r ddau am eu gwaith caled dros y blynyddoedd.

PENDEFYNWYD derbyn yr adroddiad

7. BUDDSODDIAD YN Y BARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi'r angen i'r Pwyllgor wneud penderfyniad swyddogol i drosglwyddo'r Gronfa Bond Dychweliad Absoliwt Insight sydd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd. Adroddwyd bod Hymans Robertson, mewn cyfarfod diweddar o'r Panel Buddsoddi (16 Mai 2019) wedi cyflwyno a thrafod yr opsiynau ac mai barn y panel oedd trosglwyddo'r holl asedau o Insight i Gronfa Bond Dychweliad Absoliwt Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Eglurwyd hefyd, pan drosglwyddwyd ecwiti i'r Bartneriaeth Pensiwn Cymru, daliwyd cyfran o asedau yn ôl, er mwyn lleihau'r risg trwy ei fuddsoddi yng Nghronfa Credyd Aml-Asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru. Ategwyd y byddai'r trosglwyddiad yma o Fidelity yn digwydd yn yr un cyfnod â'r trosglwyddiad o Insight.

PENDERFYNWYD, yn unol â barn y Panel Buddsoddi, gadarnhau'r buddsoddiadau yng nghronfeydd canlynol Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- **Cronfa Bond Dychweliad Absoliwt** (holl asedau o Insight).
- **Cronfa Credyd Aml-Asedau** (asedau ecwiti byd-eang o Fidelity).

8. BUDDSODDIAD ECWITI CARBON ISEL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi'r angen i'r Pwyllgor gadarnhau buddsoddiadau carbon isel. Mewn cyfarfod diweddar o'r Panel gyda Hymans Robertson trafodwyd yr opsiynau posib ar gyfer buddsoddiad carbon isel er mwyn cyrraedd y meincnod strategol o 12% sydd o fewn y dyraniad o 29% o'r ecwiti goddefol cyfredol sydd gan Gronfa Gwynedd. Barn y Panel oedd buddsoddi 12% o gyfanswm y gronfa yng nghronfa ecwiti Carbon Isel y Byd BlackRock. Gan fod cronfeydd BlackRock yn rhan o broses o gaffaeliad ecwiti goddefol 2016 a gynhaliwyd gan Gronfeydd Pensiwn Cymru, eglurwyd nad oedd angen mynd trwy broses gaffael ffurfiol.

Ategwyd bod y buddsoddiad yma yn un cyfrifol ac yn ymateb i ofynion y Cyngor ynghyd ag egwyddorion buddsoddi'r Pwyllgor Pensiynau.

PENDERFYNWYD, yn unol â barn y Panel Buddsoddi, bod 12% o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn symud o'r dyraniad ecwiti goddefol cyffredinol cyfredol gyda BlackRock i gronfa ecwiti goddefol carbon isel gyda BlackRock.

9. PRISIAD ACTIWARAIDD TEIR-BLYNYDDOL 2019

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn darparu gwybodaeth gyffredinol a throsolwg o'r broses prisiau gyfredol ar gyfer cynnal prisiau actiwaraid teir-blyneddol, ynghyd ag amserlen arfaethedig.

Eglurwyd bod data'r prisiau wedi ei gyflwyno i'r actwari ar y 16eg o Orffennaf a bod gwaith eisoes wedi ei ddechrau ar yr ymateb i ymholiadau pellach a gafwyd gan Hymans.

Nodwyd mai cyfrifoldeb y cyflogwyr yw cyflwyno gwybodaeth gywir ac amserol i swyddogion yr Uned Pensiynau. Adroddwyd bod ansawdd y data eleni yn dderbyniol ar yr olwg cyntaf, a bod pob cyflogwr wedi cwrdd gyda'r gofynion amser. Gwerthfawrogyd gwaith y cyflogwyr a staff yr Uned Pensiynau.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

10. RHAGDYBIAETHAU PRISIAD 2019

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo rhagdybiaethau arfaethedig er mwyn gosod targed ariannu ar gyfer prisiau teir-blyneddol cyfredol y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019. Cyfeiriwyd at fanylion llawn y rhagdybiaethau mewn adroddiad a dderbyniwyd gan Actwari'r Gronfa oedd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad. Amlygwyd nad oedd rhagdybiaethau wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor o'r blaen ac ystyriwyd mai priodol fyddai rhannu'r wybodaeth er mwyn sicrhau tryloywder. Ategwyd mai prif flaenoriaeth y Pwyllgor yw sicrhau bod buddiannau'r gronfa yn saff, ond bod gwaith hefyd yn cael ei wneud i gadw balans buddiannau cronfa bensiwn yn erbyn costau cyflogwr.

Adroddwyd mai un newid yn unig oedd i'r rhagdybiaethau, sef rhagdybiaeth codiadau cyflog. Yn dilyn cyngor gan Hymans penderfynwyd addasu'r ffigwr i CPI +0.3% fyddai'n ymateb i ddisgwyliadau codiadau cyflog tymor byr uwch, gan adlewyrchu'r tueddiad diweddar. Bydd ymgynghoriad ffurfiol gyda'r cyflogwyr ar y rhagdybiaethau ynghyd â diwygiadau eraill i'r Datganiad Strategaeth Gyllido o brisiad 2019 yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mewn ymateb i sylw y gall gormod o wybodaeth fod yn gymhleth ac mai gweld gwerth yn unig yw dyhead y trethdalwr, nodwyd bod rhannu'r wybodaeth yn briodol a bod eisiau amlygu'r angen am gynigion o'r newydd i geisio gwell buddiannau i'r gronfa.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhagdybiaethau arfaethedig er mwyn gosod y targed ariannu ar gyfer prisiad teir-blyneddol cyfredol y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben 3:05pm

Eitem 8



Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	24/09/2019
Teitl:	Gweinyddiaeth Pensiynau
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
Pwrpas:	Er gwybodaeth yn unig

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg cyffredinol o'r weinyddiaeth pensiwn dros y 6 mis diwethaf. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwaith sydd wedi'i gyflawni dros y cyfnod, diweddariad ar amrywiol brosiectau y soniwyd amdanynt o'r blaen, a hefyd yn rhestru'r heriau y mae'r adran yn eu hwynebu o ddydd i ddydd.

Staffio

Yn dilyn cymeradwyo'r strwythur staffio newydd gan y Pwyllgor Pensiynau ym mis Ionawr 2019, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i benodi aelodau newydd o staff i ymuno â'r tîm.

Ers mis Ebrill rydym wedi bod yn llwyddiannus yn recriwtio 4 Cymhorthydd Pensiynau, Swyddog Systemau a Thechnegydd Systemau newydd. Mae pob aelod o staff wedi setlo'n dda i'w rolau ac ar hyn o bryd yn ymgymryd â hyfforddiant perthnasol.

Ar hyn o bryd mae Nicholas Hopkins, y Rheolwr presennol ar gyfnod o ymddeoliad hyblyg a bydd yn ymddeol yn llwyr o'r Cyngor ddiwedd mis Tachwedd 2019. Rydym yn ddiolchgar i Nick am ei holl waith caled a'i gyfeillgarwch dros y 37 mlynedd diwethaf ac yn dymuno'r gorau iddo ar gyfer y dyfodol. Penodwyd Merion Jones fel olynydd i Nick.

Prisiant

Un o'r prosiectau mawr ar gyfer 2019 yw'r prisiant.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddiweddarau cofnodion aelodau ac i glirio cymaint o wallau â phosibl.

Mae Hymans Robertson wedi cymeradwyo'r data ddechrau mis Medi 2019 ac ar hyn o bryd maent yn brysur yn cyfrifo'r cyfraddau cyfrannu. Bydd canlyniadau drafft cyflogwyr a chyfraddau cyfraniadau yn cael eu rhyddhau i'r Gronfa ar 27/09/2019, gyda chyfarfod cyflogwr wedi'i drefnu ar gyfer 24/10/2019, lle bydd yr actiwari yn cyflwyno canlyniadau 2019 i'r cyflogwyr. Mae croeso i aelodau'r bwrdd fynychu'r cyfarfod hwn.

Datganiadau Buddion Blynnyddol

Rhaid cynhyrchu Datganiad Buddion Blynnyddol ar gyfer pob aelod o'r cynllun erbyn diwedd mis Awst bob blwyddyn. Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion i aelodau o'r buddion a gronnwyd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn rhagweld y buddion sy'n daladwy ar eu Hoedran Pensiwn Arferol. Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys manylion tâl a nodiadau esboniadol ynghylch sut mae'r buddion yn cael eu cyfrif.

Ers 2018 mae'r datganiadau hyn ar gael yn electronig ar adran Hunan Wasanaeth Aelodau ein gwefan. Llwythwyd datganiadau 2019 ar y system ar gyfer aelodau actif a gohiriedig ar 16/08/2019.

Mae 1,050 o aelodau wedi ysgrifennu i mewn i gadarnhau eu bod am barhau i dderbyn copi papur o'u datganiadau. Anfonwyd y datganiadau hyn ar 17/08/2019.

Hyfforddiant

Yn ddiweddar, mae tri aelod o staff wedi cwblhau cwrs Tystysgrif Gweinyddiaeth Pensiynau Sefydliad Siartredig y Gweithwyr Cyflogres Broffesiynol (CIPP). Roedd y cwrs hwn yn cynnwys cwblhau chwe aseiniad ac un arholiad.

Yn ddiweddar, mae pedwar aelod o staff wedi dechrau astudio tuag at Radd Sylfaen mewn Gweinyddu a Rheoli Pensiynau. Mae'r radd sylfaen yn gymysgedd o aseiniadau ac arholiadau a bydd yn cymryd 2 flynedd i'w chwblhau.

Mae sesiwn hyfforddi diwrnod llawn ar Ddeall Cyfuno Cofnodion wedi'i threfnu ar gyfer holl staff yr adran bensiwn ar 29 Medi 2019. Bydd Mr Karl White o'r LGA yn cyflwyno'r sesiwn hyfforddi hon yng Nghaernarfon.

Cynnydd Pensiwn 2019

Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Medi 2018 oedd 2.4%. Hwn oedd y ffigur a ddefnyddiwyd ym mis Ebrill 2019 i gynyddu taliadau pensiwn ein pensiynwyr a'n buddion gohiriedig.

Anfonwyd llythyr ym mis Ebrill at ein holl bensiynwyr i'w hysbysu o werth newydd eu pensiwn a'r dyddiadau talu ar gyfer 2019/20.

Gwefan Hunan Wasanaeth Aelodau

Y gobaith oedd y byddai'r wefan Hunan Wasanaeth Aelod (HWA) newydd yn fyw erbyn hyn. Yn anffodus, oherwydd ymddiswyddiad y Swyddog Systemau yn gynharach eleni, ataliwyd y gwaith ar y broses hon am y tro.

Fodd bynnag, rwy'n falch o adrodd bod y contract i osod gwefan newydd yr HWA wedi'i lofnodi yn ddiweddar a bydd y wefan yn cael ei chyflwyno cyn gynted â phosibl. Bydd arddangosiad o'r system newydd yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dylai'r wefan newydd roi gwell profiad ar-lein i'n haelodau, gyda rhyngwyneb haws ei ddefnyddio a mwy deniadol. Mae'r system HWA yn caniatáu i aelodau:

- Gweld a diweddarau manylion personol a newidiadau cyfeiriad
- Darganfod faint y byddant yn ei dderbyn wrth ymddeol
- Cyfrifo'r lwmp swm ychwanegol y gallant ei gymryd wrth ymddeol
- Gweld hanes eu gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw wasanaeth sydd wedi'i drosglwyddo
- Gweld a diweddarau eu buddiolwyr enwebedig
- Gweld eu Datganiadau Buddion Blynnyddol

i-Connect

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i annog cyflogwyr i ddefnyddio'r system i-Connect.

Mae I-Connect yn sicrhau bod cofnodion aelodau yn cael eu diweddarau bob mis, yn hytrach nag unwaith y flwyddyn fel ar hyn o bryd. Mae'r system hefyd yn awtomeiddio nifer o weithdrefnau yn yr adran ac felly'n rhyddhau staff i fynd i'r afael â dyletswyddau eraill yn yr adran.

Ar hyn o bryd mae 85% o'r cyflogwyr yn defnyddio'r system i-Connect yn fisol, gyda gwaith yn parhau i symud y 5 prif gyflogwr i'r system yn 2019/20 - Cynhaliwyd cyfarfodydd yn ddiweddar i drafod y ffordd ymlaen.

Y gobaith yw y bydd y broses paru aelodau yn cychwyn yn fuan gyda Chyngor Gwynedd.

Adroddiad Diwedd Flwyddyn

Oherwydd symud drosodd i'r system i-Connect nid oedd yn ofynnol i lawer o gyflogwyr gyflwyno manylion diwedd flwyddyn eleni trwy daenlen Excel.

Gosodwyd dyddiad cyflwyno o 30 Ebrill 2019 ar gyfer cyflwyno'r data. Ar y cyfan, roedd y cyflogwyr yn gallu cwrdd â'r dyddiad cau hwn, gydag un cyflogwr yn cael estyniad o wythnos.

Roedd ansawdd y data eleni yn uchel iawn, gyda nifer fach o ymholiadau yn cael eu hanfon yn ôl at rai cyflogwyr i gael eglurhad.

Rydym yn ddiolchgar i'r cyflogwyr am eu cymorth i gyflenwi data cywir ac amserol er mwyn cwrdd â'r terfynau amser amrywiol o ran darparu manylion ar gyfer y prisiant a chyhoeddi'r datganiadau buddion blynyddol.

PWYLLGOR: **BWRDD PENSIWN**

DYDDIAD: **24 MEDI 2019**

TEITL: **PRISIAD ACTIWARAIDD TEIR-BLYNYDDOL 2019**

PWRPAS: **ER GWYBODAETH**

AWDUR: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

Rheswm am yr adroddiad

1. Bydd y prisiad actiwaraid teir-blynyddol o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn adnabod y gwerth fel ar 31 Mawrth 2019. Mae'r adroddiad yma'n darparu trosolwg o'r broses brisio cyfredol a'r amserlen.

Cefndir

2. Mae Rheoliad 62 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) 2013 yn ei wneud yn ofynnol i awdurdod gweinyddu gael prisiad actiwaraid o asedau a rhwymedigaethau ei gronfa pensiwn bob tair blynedd. Felly, bydd y prisiad cyfredol fel ar 31 Mawrth 2019.
3. Mae'n rhaid i ganlyniadau pob prisiad gael ei adrodd i'r awdurdod o fewn 12 mis o ddyddiad y prisiad.

Materion

4. Er mwyn cynnal y prisiad mae'n rhaid i'r actiwari gadarnhau cyfanswm gwerth asedau'r Gronfa fel ar ddyddiad y prisiad. Fel arfer cymerir gwerth yr asedau o ddatganiad cyfrifon archwiliedig y Gronfa.
5. Rhaid i'r actiwari hefyd amcangyfrif gwerth presennol rhwymedigaethau'r Gronfa, h.y. y buddiannau pensiwn sy'n ddyledus i aelodau'r Gronfa ac a'u priod, partneriaid a buddiolwyr eraill fel y'i diffinnir gan Reoliadau'r CPLIL. Mae'r broses yn defnyddio'r data perthnasol o sustem weinyddol y Gronfa a chyfrifon ariannol, ynghyd â thybiaethau demograffig ac ariannol (e.e. disgwyliad oes, nifer yr achosion o ymddeoliadau ar sail salwch, chwyddiant a graddfeydd llog, enillion ar fuddsoddiadau) i gyfrifo'r rhwymedigaethau. Os yw asedau'r Gronfa yn fwy na'i rhwymedigaethau, mae gwarged arian fel ar ddyddiad y prisiad; os yw'r rhwymedigaethau'n fwy na'r asedau mae diffyg cyllido.

6. Bydd yr actiwari yn nodi lefel y cyfraddau cyfraniadau fydd ei angen gan gyflogwyr y Gronfa er mwyn cyfarch costau buddiannau pensiwn fydd yn cronni yn y dyfodol. Bydd unrhyw arian dros ben neu ddiffyg ar gyfer cyflogwr unigol yn cael ei ad-dalu neu ei adennill, unai drwy addasiad i'r gyfradd cyfraniad, neu fel symiau ariannol yn ddyledus pob blwyddyn ariannol.
7. Datganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa (Funding Strategy Statement 'FSS') yw'r ddogfen llywodraethu allweddol ar gyfer y prisiad. Mae'n ofynnol gan Reoliadau CPLIL fod pob awdurdod gweinyddu CPLIL yn paratoi, cyhoeddi a chynnal 'FSS'. Mae'r 'FSS' yn gosod allan y prosesau mae'r awdurdod yn anelu at i gwrdd rhwymedigaethau pensiwn y Gronfa, gan gydymffurfio gyda'r gofynion rheoleiddio i gynnal cyfraddau cyfraniadau sefydlog wrth sicrhau hyfywdra a chost effeithlonrwydd hirdymor y Gronfa. Mae'n cynnwys dull gweithredu'r awdurdod gyda materion megis dosraniad tybiannol asedau'r Gronfa i bob cyflogwr, ac adennill diffygion ariannu. Fel arfer, mae'r 'FSS' yn cael ei adolygu yn ystod y broses brisio mewn ymgynghoriad gydag actiwari'r Gronfa a'r cyflogwyr. Y Pwyllgor Pensiynau sy'n cymeradwyo'r 'FSS'.
8. Dangosir amserlen gwaith Prisiad 2019 yn yr Atodiad.
9. Bydd y Rheolwr Pensiynau yn darparu diweddariad llafar ar y cynnydd hyd yma yn adroddiad diweddariad gweinyddiaeth.
10. Bydd y Datganiad Strategaeth Gyllido yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor am gymeradwyaeth yn dilyn y cyfnod ymgynghori ar 16 Ionawr 2020. Mae Actiwari'r Gronfa wedi cael ei wahodd i gyflwyno canlyniadau cychwynnol y prisiad i gyfarfod y cyflogwyr ar yr un diwrnod a Chyfarfod Blyneddol Cyffredinol y Gronfa ar 24 Hydref.

Argymhelliad

- 11. Bod y Bwrdd yn nodi'r adroddiad.**

Amserlen arfaethedig	Digwyddiad
Dechrau Chwefror 2019	Cyfarfod Cynllunio'r Prisiant
Dechrau Chwefror 2019	Trafod cynigion modelu ComPASS gyda swyddogion (gan gynnwys senarios)
Dechrau Chwefror 2019	Cyhoeddi'r ddogfen 'Eich Canllaw i'r Prisiant 2019'
Canol Chwefror 2019	Cyhoeddi cynigion rhagdybiaethau modelu'r prisiant i'r swyddogion
28 Chwefror 2019	Cyhoeddi canlyniadau rhagdybiaethau modelu'r prisiant i'r swyddogion
Dechrau Mawrth 2019	Dechrau glanhau data cyn prisiant 2019 (gan ddefnyddio'r Porth Data)
Canol Mai 2018	Trafodaethau parhaus ynghylch glanhau data
Canol Mehefin 2019	Ystyried strategaeth cyfraniad ar gyfer cyflogwyr sefydlog
Diwedd Mehefin 2019	Trafodaeth proffil risg y cyflogwyr
Gorffennaf 2019	Cyhoeddi canlyniadau Proffilio Risg y cyflogwyr i'r swyddogion
16 Gorffennaf 2019	Cyflwyno data'r prisiant i'r Actwari
23 Gorffennaf 2019	Ymholiadau data gan yr Actwari
30 Gorffennaf 2019	Ymateb i ymholiadau'r Actwari
13 Medi 2019	Cymeradwyo data glân
Medi 2019	Modelu ComPASS yn dechrau
26 Medi 2019	Darparu canlyniadau'r gronfa gyfan i'r swyddogion
27 Medi 2019	Cyfarfod canlyniadau cychwynnol
27 Medi 2019	Darparu a thrafod canlyniadau ComPASS gyda'r swyddogion
03 Hydref 2019	Darparu canlyniadau drafft cyflogwyr unigol i'r swyddogion
Dechrau Hydref 2019	Cymeradwyo'r 'FSS' i ymgynghori â chyflogwyr
04 Hydref 2019	Cyfarfod canlyniadau drafft y cyflogwyr
11 Hydref 2019	Cyfarfod canlyniadau drafft y cyflogwyr - trafodaeth bellach
14 Hydref 2019	Cytuno ar gyfraddau cyfraniadau ar gyfer amserlenni canlyniadau'r cyflogwyr
18 Hydref 2019	Darparu amserlenni canlyniadau'r cyflogwyr
24 Hydref 2019	Fforwm Cyflogwyr
24 Hydref 2019	Cymorthfeydd Cyflogwr 1 i 1 gyda chyflogwyr unigol (os oes angen)
25 Hydref 2019 - Rhagfyr 2019	Ymgynghori ffurfiol â chyflogwyr
Ionawr 2020	Llofnodi'r 'FSS'
14 Chwefror 2020	Drafft cyntaf o'r adroddiad terfynol
31 Mawrth 2020	Cymeradwyo'r prisiant
31 Mawrth 2020	Llofnodi'r adroddiad terfynol ac R&A

Eitem 10

PWYLLGOR: BWRDD PENSIWN

DYDDIAD: 24 MEDI 2019

TEITL: RHAGDYBIAETHAU PRISIAD 2019

PWRPAS: EGLURO A CHRAFFU'R RHAGDYBIAETHAU

AWDUR: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

Cyflwyniad

1. Mae'r papur yma'n darparu cyfle i'r Bwrdd ystyried y rhagdybiaethau mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo er mwyn gosod y targed ariannu ar gyfer prisiad teir-blyneddol cyfredol y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019.

Cefndir

Rhagdybiaethau Prisiad ar gyfer Prisiad 2019

2. Roedd swyddogion wedi derbyn cynigion gan Actiwari'r Gronfa yn gosod allan opsiynau sut i adeiladu a gosod rhagdybiaethau prisiad. Hefyd, trafodwyd y cynigion sydd wedi'u amlinellu isod gyda Chadeirydd y Pwyllgor.
3. Yn dilyn i fyny o'r trafodaethau yma, cyflwynwyd papur ffurfiol yr actiwari (**Atodiad** i'r papur yma), yn cynnig rhagdybiaethau i osod targed buddsoddi ar gyfer prisiad teir-blyneddol parhaus y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019.
4. Yng nghyfarfod 29 Gorffennaf, ddaru'r Pwyllgor ystyried a chefnogi'r rhagdybiaethau yn y Crynodeb Gweithredol isod.
5. Bydd ymgynghoriad ffurfiol gyda'r cyflogwyr ar y rhagdybiaethau yma, ynghyd â diwygiadau eraill i'r Datganiad Strategaeth Gyllido o brisiad 2019, mewn un ymgynghoriad yn hwyr yn 2019 neu yn fuan yn 2020.
6. Cyflwynir y rhagdybiaethau yma er mwyn i'r Bwrdd gael cyfle i holi swyddogion a herio newidiadau rhwng 2016 a 2019.

Argymhellion

7. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r rhagdybiaethau yn y tabl crynodeb dilynol, ac wedi'u manylu yn yr Atodiad.

Crynodeb rhagdybiaethau arfaethedig ar gyfer prisiad 2019:

Rhagdybiaeth	Rhagdybiaeth 2016	Arfaethedig 2019	Rheswm dros y newid
Raddfa disgownt • Maint uwch na'r raddfa di-risg	1.7% y.f.	1.7% y.f.	Dim newid, lefel darbodus yn gyson gyda phrisiad 2016
Codiadau Pensiwn • Bwlch RPI-CPI	CPI yn llai o 1.0% y.f.	CPI yn llai o 1.0% y.f.	Dim newid
Codiadau cyflog • Chwyddiannol	RPI llai 1% (=CPI)	CPI + 0.3% y.f. (RPI llai 0.7%)	Disgwylir codiadau cyflog tymor byr uwch
Hirhoedledd • Gwaelodlin • Gwelliannau yn y dyfodol	Dadansoddiad 'Club Vita' Model CMI, fersiwn 2013, raddfa gwelliannau hirdymor o 1.25% y.f.	Dadansoddiad 'Club Vita' Model CMI (fersiwn diweddarach), raddfa gwelliannau hirdymor o 1.25% y.f.	Dim newid ym methodoleg. Fersiwn diweddarach o dabl CMI yn adlewyrchu profiad mwy diweddar.
Alldyniadau	Gweithredu graddfa o 85% i ragdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson ar gyfer gwrywod rhan amser a 90% i holl fenywod yn ôl-weithredol, a gweithredu'r rhagdybiaeth rhagosodedig ar gyfer gwrywod llawn amser		
Ymddeoliadau oherwydd salwch	Haen 1; Gweithredu graddfa o 70% i ragdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson ar gyfer menywod llawn amser, fel arall gweithredu'r rhagdybiaeth rhagosodedig Haen 2; Gweithredu rhagdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson		
Codiadau cyflog hyrwyddol	Dim newid (gweithredu rhagdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson)		
Opsiwn '50:50 take-up'	2%	0.5%	Adlewyrchu'r gyfradd hawlio isel parhaus
Arian parod y gellir ei gymudo	Dim newid arfaethedig o ragdybiaeth prisiad 2016		
Marwolaethau cyn ymddeol	Dim newid arfaethedig o ragdybiaeth prisiad 2016		
Cyfran wedi priodi	Dim newid arfaethedig o ragdybiaeth prisiad 2016		
Oed ymddeol	Addasiad bychan i adlewyrchu profiad sy'n dod i'r amlwg		

8. Mae manylion llawn am y rhagdybiaethau wedi'u gosod allan yn adroddiad yr Actiwari, wedi'i amgáu yma fel Atodiad.

Setting assumptions for the 2019 valuation

Executive Summary

The Gwynedd Pension Fund ("the Fund") will undertake a triennial valuation as at 31 March 2019. The valuation is a statutory requirement of the Local Government Pension Scheme Regulations which facilitates a health check of the Fund against an appropriate funding target and a review of its funding plan. Actuarial assumptions are required to calculate the liabilities that feed into the funding target and plan.

The assumptions are informed estimates about future experience. Over time they may need to be updated to reflect emerging evidence and changes in the regulatory and environmental background. We have carried out a review of the assumptions that were used at the 2016 valuation to check if they remain fit for purpose at the 2019 valuation.

The results of our review are summarised below. Where we have suggested a change in assumption from 2016 we have also noted the reason. Fuller details about the assumptions are contained within this paper.

Assumption	2016 assumption	Proposed 2019 assumption	Reason for change
Discount rate - Margin above risk free rate	1.7% p.a.	1.7% p.a.	No change
Pension Increases - RPI-CPI gap	CPI (= RPI – 1.0% p.a.)	CPI (= RPI – 1.0% p.a.)	No change
Salary increases - Inflationary	CPI (= RPI – 1.0% p.a.)	CPI + 0.3% p.a.	Expected upward pressure on pay increases
Longevity - Baseline - Future Improvements	Club Vita analysis CMI model, 2013 version, long term rate of improvements of 1.25% p.a.	Club Vita analysis CMI model (latest version), long term rate of improvements of 1.25% p.a.	No change in methodology. Later version of CMI table reflects more recent experience.
Withdrawals	Apply scaling of 85% to Hymans Robertson's default assumption for part-time males and 90% to all females respectively, and apply the default assumption for full-time males		
Ill health retirements	Tier 1; Apply scaling of 70% to the Hymans Robertson's default assumption for full-time females, otherwise apply the default assumption. Tier 2; Apply the Hymans Robertson default assumption		
Promotional salary increases	Apply the Hymans Robertson default assumption		
50:50 take up option	2%	0.5%	Reflect continued low take up rate
Cash commutation	No proposed change from 2016 valuation assumption		
Pre-retirement mortality	No proposed change from 2016 valuation assumption		
Proportions married	No proposed change from 2016 valuation assumption		
Retirement age	Slight adjustment to reflect emerging experience		

Contents

Page

Addressee, Purpose and Background

3

Financial Assumptions

Discount Rate

4
